cymorth cymru
connect • strengthen • influence

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

MATERION CARTREF

Cyllideb Llywodraeth Cymru 2027-28

Pecyn Ymgyrch i Aelodau









CYFLWYNIAD

Pa rydyn ni'n rhedeg yr ymgyrch hon?

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i sicrhau cynnydd yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai, yn enwedig yn achos y Grant Cymorth Tai. Yn 2020, roedd y grant yn £126m a bellach mae'n £211m.

Fodd bynnag, roedd y cyllid hwn yn £139m yn 2012, ac nid yw ond wedi dal i fyny â chwyddiant yn hytrach nag wedi cynyddu mewn termau real. Yn sicr, nid yw wedi codi digon i gadw i fyny â'r twf yn y galw a'r cymhlethdodau sy'n wynebu gwasanaethau. Wrth ystyried y dystiolaeth rydym wedi ei chasglu gan ein haelodau, mae'n gwbl glir bod angen codiad pellach mewn cyllid – ac mae'r ymgyrch hon yn galw am gynnydd o 16% yng nghyllideb Llywodraeth Cymru am 2027/28.

Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yma?

Yn ystod mis Medi buom yn casglu data gan wasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru i gael tystiolaeth o'r pwysau ariannol sydd ar ddarparwyr cymorth, y cynnydd yn y galw a'r cymhlethdodau a wynebir gan wasanaethau, ac effaith debygol gwahanol senarios yng nghyd-destun y gyllideb. Buom yn dadansoddi'r data a darparu dogfen friffio ar gyfer y Gweinidog Tai a'i swyddogion i roi gwybodaeth iddynt ar gyfer eu trafodaethau mewnol ar y gyllideb, a derbyniwyd y ddogfen yn ddiolchgar. Rydym hefyd wedi cynhyrchu adroddiad (ar gael yn Saesneg a Chymraeg) ar gyfer Aelodau o'r Senedd, a byddwn yn rhoi cyflwyniad i gyfarfod nesaf Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Dai.

Amserlen y gyllideb Gymreig

17 TACHWEDD	19 IONAWR	16 CHWEFROR	23 CHWEFROR
CYHOEDDI'R GYLLIDEB DDRAFFT	DADL AR Y GYLLIDEB DDRAFFT	CYHOEDDI'R GYLLIDEB DERFYNOL	DADL AR Y GYLLIDEB DERFYNOL

Cyllideb Cymru 2027/28: Beth a wyddom hyd yn hyn

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae Gweinidogion Cymru a swyddogion wedi dweud wrthym y bydd hon yn debygol o fod yn gyllideb anodd iawn. Deallwn fod pob adran o Lywodraeth Cymru wedi cael cais i ddod o hyd i arbedion o hyd at 5%. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r disgwyliadau y bydd Cymru'n debyn dyraniad ariannol sy'n is na chwyddiant ar gyfer 2027/28, ac yn rhannol yn sgil yr ymrwymiadau cyllidol a wnaed gan Plaid Cymru yn eu maniffesto adeg yr etholiad.

Ar 28 Hydref, cyflwynodd y Canghellor ei Ddatganiad yr Hydref, gan amlinellu prif benderfyniadau cyllidol Llywodraeth y DU am 2027/28. Wrth ymateb, cyhoeddodd Gweinidog y Cabinet dros Gyllid ddatganiad ysgrifenedig, a chyhoeddodd hefyd y sylw hwn.

> "Bydd yn rhaid inni wneud penderfyniadau anodd, blaenoriaethu'n ofalus a sicrhau mwy o effeithlonrwydd ar draws y sector cyhoeddus, er mwyn cynnal buddsoddiad yn y meysydd sydd bwysicaf i bobl Cymru."

O ganlyniad, mae'n holl bwysig ein bod yn rhoi cymaint o bwysau ag y bo modd ar Aelodau o'r Senedd a Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi cyllideb 2027/28.

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD I HELPU?

Gwyddom o'r profiad o ennill ymgyrchoedd Materion Cartref yn y gorffennol fod Aelodau o'r Senedd yn fwy tebygol o daflu eu wysau y tu ôl i fater arbennig os byddant yn clywed gan bobl a gwasanaethau o fewn eu hetholaeth neu eu rhanbarth hwy eu hunain. Dyna pam y mae eich lleisiau chi mor bwerus, a gallant fod yn hanfodol wrth i ni geisio dylanwadu ar y Gyllideb Derfynol. Bydd y pecyn ymgyrch hwn yn rhoi'r offer i chi wneud hyn – ond os oes arnoch angen rhagor o gymorth, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Pam y mae eleni'n wahanol?

Yn etholiad y Senedd ym mis Mai, cafwyd cyfanswm o 96 Aelod o'r Senedd (ASau) o gymharu â'r 60 blaenorol. Yn ogystal, roedd cyfran sylweddol o ASau'r tymor blaenorol naill ai wedi ymddeol neu wedi colli'u seddi.

Mae hyn yn golygu bod tua 70% o'r ASau cyfredol yn newydd i'r Senedd – ac mae'n debygol nad oes ganddynt lawer o wybodaeth am wasanaethau ym maes digartrefedd a chymorth tai, na sut y cânt eu hariannu. Mae hefyd yn golygu nad yw llawer o'r ASau oedd gynt yn hyrwyddo ein sector bellach ar gael i gefnogi'r achos dros fuddsoddi mewn gwasanaethau.

O ganlyniad, mae'n bwysicach nag erioed eich bod yn cysylltu â'ch ASau a'u haddysgu am bwysigrwydd ac effaith eich gwasanaethau ar bobl a chymunedau, y pwysau a wynebir gan eich sefydliad, staff, a phobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau, a pha mor bwysig yw cynyddu'r cyllid yn 2027/28.

Cynlluniau gweithredu ar gyfer sefydliadau sy'n aelodau

Brys: Cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd

Anogwch eich staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau i ebostio eu Haelodau o'r Senedd (ASau) i rannu ein hadroddiad Materion Cartref ac i dynnu sylw at yr angen i gynyddu'r Grant Cymorth Tai a/neu'r Grant Atal Digartrefedd. Mae gan bawb yng Nghymru chwe Aelod o'r Senedd – ac mae'n debygol fod eich gwasanaethau'n cwmpasu nifer sylweddol o etholaethau.

➔ Gallwch ddod o hyd i'ch ASau chi yma.

Gwahodd Aelodau o'r Senedd i ymweld â'ch gwasanaethau

Estynnwch wahoddiad i'ch ASau lleol a rhanbarthol i ymweld â'ch prosiectau. Byddai hyn yn gyfle iddynt gwrdd â staff a phobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau, dysgu sut mae'r gwasanaethau hyn wedi trawsnewid bywydau pobl – a chlywed pam mae'n rhaid cael cynnydd yn y cyllid sydd ar gael.

Lledaenu'r gair ar y cyfryngau cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Senedd yn defnyddio X a Facebook – gofynnwn i chi annog eich staff a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau i gefnogi'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Rhannwch y deunyddiau graffig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol (ar gael yma)
- Rhannwch luniau o'ch tîm a'ch ASau lleol yn cefnogi'r ymgyrch

Siaradwch gyda'ch papur newydd lleol neu eich gorsaf radio leol

Mae papurau newydd a gorsafoedd radio lleol yn lwyfannau gwych i danlinellu'r effaith bositif mae gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yn eu cael ar fywydau pobl – a pha mor bwysig yw cynyddu'r gefnogaeth ariannol. Cysylltwch â newyddiadurwyr lleol i holi a fyddent yn fodlon roi sylw i'r mater hwn. **Gofynnwn i chi roi gwybod i ni os byddwch yn ymddangos ar y cyfryngau fel bod modd i ni sicrhau eich bod yn meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf a'r negeseuon allweddol ynghylch y gyllideb.**

NEGESEUON ALLWEDDOL

Rydym yn galw am gynnydd o 16% i'r cyllid Cymorth ac Atal Digartrefedd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru am 2027/28.

Mae'r cyllid hwn yn holl bwysig i roi terfyn ar ddigartrefedd

Mae'r Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd yn ariannu mwyafrif helaeth y gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru, yn cynnwys cymorth tenantiaeth, llety â chymorth, llochesi i ddioddefwyr camdrin domestig, Tai yn Gyntaf, a llawer mwy. Mae'n gwbl hanfodol o ran atal a lliniaru digartrefedd yng Nghymru.

Yr allwedd i leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus arall

- Mewn ymchwil a wnaed gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, canfuwyd fod pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau GCT yn arbed £1.40 net i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- Yn seiliedig ar y gyllideb £211m gyfredol, mae hyn yn trosi i arbediad crynswth blynyddol o £512m i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Nid yw gwasanaethau yn derbyn digon o gyllid

- Disgwylir y bydd gwasanaethau a gomisiynir drwy'r GCT a'r GAD yn cael eu hariannu'n llawn
- Fodd bynnag, mae 83% yn rhedeg y gwasanaethau hyn ar golled.
- Dywedodd 57% o'r ymatebwyr fod cronfeydd wrth-gefn eu sefydliad yn cael eu defnyddio i sybsideiddio'r gwasanaethau hyn, ac mae honno'n sefyllfa gwbl anghynaladwy.

Mae gwasanaethau'n wynebu cynnydd yn y galw a'r cymhlethdod

- Mae dros 10,500 o bobl mewn llety dros dro
- Mae 68% o'r ddarparwyr cymorth wedi adrodd am eu gwasanaethau ers y llynedd.
- Mae 83% o'r ddarparwyr cymorth wedi adrodd am gynnydd yng nghymhlethdod y gofal ers y llynedd..

FMae gweithwyr rheng flaen yn haeddu cyflog teg a chymorth

- Mae 90% o'r darparwyr cymorth yn talu'r CBG
- Ond dim ond 35% ohonynt sy'n derbyn cyllid digonol i dalu cost y CBG.
- Mae 63% o weithwyr rheng flaen yn pryderu am dalu eu rhent / morgais yn ystod y flwyddyn
- ddiwethaf
- Mae 72% wedi bod yn pryderu am dalu eu biliau cyfleustodau.

Byddai cyllideb arian gwastad yn cael yr effaith ganlynol ar ddarparwyr cymorth:

- Byddai 70% yn debygol o orfod lleihau capasiti'r gwasanaeth
- Byddai 70% yn debygol o rewi'r broses recriwtio
- Byddai 65% yn debygol o beidio â bidio am gytundebau newydd neu rai a ail-dendrwyd
- Byddai 51% yn debygol o wneud staff yn ddi-waith
- Byddai 38% yn debygol o orfod dychwelyd cytundebau sy'n bodoli eisoes
- Gostyngiad o 8% yn y gweithlu – tua 243–324 o bobl yn colli'u swyddi

SYNIADAU SYDYN: SIARAD GYDA'CH ASAU

Dyma rai cynghorion syml i gofio amdanynt pan fyddwch yn cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd:

Trefnwch i gwrdd â hwy'n bersonol os yn bosibl:

Er bod ebyst yn ffordd wych o gyfathrebu gwybodaeth, caiff y cyflwyniadau mwyaf pwerus eu gwneud wyneb yn wyneb. Ceisiwch annog eich AS i ymweld â'ch gwasanaethau a chwrdd â phobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau i sicrhau eu bod yn deall y profiadau drostynt eu hunain. Mae hyn yn debygol o gael effaith tymor hir, a dylanwadu ar y sylwadau y byddant yn eu gwneud yn y Senedd.

Gwnewch e'n bersonol i'ch gwasanaethau a'ch profiadau:

Mae cyfathrebu ein prif negeseuon yn bwysig. Fodd bynnag, byddai rhannu gwybodaeth am wasanaethau a phrofiadau pobl o fewn eu hetholaethau'n cael llawer mwy o effaith ar Aelodau o'r Senedd ac yn eu gwneud yn fwy tebygol o godi eu llais.

Byddwch yn glir ynghylch yr hyn rydych yn gofyn iddynt ei wneud:

Bydd llawer o sefydliadau yn lobïo eich ASau – felly mae'n bwysig ein bod yn glir ynghylch yr hyn rydym yn awyddus iddynt ei wneud. Rydym am iddynt alw am gynnydd yn yr arian. Gallant wneud hyn drwy:

- Ysgrifennu at Gweinidog Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gyllid i ofyn am fwy o arian
- Siarad â llefarydd cyllid eu plaid
- Gwneud araith neu ofyn cwestiynau yn y Senedd
- Tynnu sylw at y mater hwn ym Mhwyllgorau'r Senedd
- Rhannu eu cefnogaeth ar y cyfryngau cymdeithasol

Byddwch yn gefnogol ac awdurdodol:

Dangoswch eich bod yn ffynhonnell dda o wybodaeth. Rhaid i ASau ddelio ag ystod eang o faterion, felly maent yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n eu helpu i wneud cyflwyniadau effeithiol ar ran eu hetholwyr. Chi yw'r arbenigwyr ar wasanaethau digartrefedd a chymorth tai, a byddant yn gwerthfawrogi'n fawr eich mewnwelediad ac unrhyw enghreifftiau sydd gennych o fywyd go iawn.

Bydd angen i chi ddyfalbarhau:

Mae ASau yn bobl brysur ac mae'n bosib na fydd modd iddynt dderbyn eich gwahoddiadau oherwydd ymrwymiadau eraill sydd eisoes yn eu dyddiadur. Peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to – gwahoddwch hwy i ryw achlysur arall, neu roi cynnig ar rywbeth newydd. Dangoswch eich bod yn awyddus i gwrdd â hwy.

Datblygu perthynas bositif gyda'u staff:

Gall aelodau o'u staff fod yn ddylanwadol iawn, ac yn aml maent yn paratoi dogfennau briffio a chyngor ar gyfer eu Haelod o'r Senedd. Mae'n werth datblygu perthynas dda gyda'r staff a chymryd amser i esbonio'r sefyllfa iddynt.